

Llyfr Rheolau Uned Cludiant Teithwyr - Cod Ymddygiad (F1.0)

Disgyblion

Mae'r rheolau hyn yn eu lle ar gyfer eich diogelwch eich hunan ac mae'n rhaid cydymffurfio â nhw bob amser ac maent yn weithredol ar gyfer unrhyw ddull o gludiant a ddarperir gan yr Uned Cludiant Teithwyr.

Y rheolau

Aros am a mynd ar gludiant ysgol

- Cyrraedd y man codi neu safle bws tua 5 munud cyn bod y cludiant i fod i gyrraedd.
- Cael pas bws neu hysbysiad dyfarniad yn barod i osgoi oedi diangen wrth fynd ar y bws
- Cadw draw o'r ffordd wrth i'r cludiant agosáu. Pan mae'r cludiant yn cyrraedd, peidio gwthio teithwyr eraill i geisio mynd arno'n gyntaf.
- Mynd ar y cerbyd mewn modd trefnus.
- Canfod sedd yn gyflym ac yn dawel. Hysbysu'r gyrrwr os nad oes unrhyw seddi ar gael. Os yw'r cerbyd yn un sy'n cario teithwyr sy'n sefyll, dal yn dyn bob amser ar ganllaw cydio neu strap cydio.

Teithwyr sy'n sefyll

- Dim ond os oes gan y cerbyd drwydded i gario teithwyr yn sefyll y caniateir i ddisgyblion sefyll. Caiff hysbysiad ei ddangos ar flaen y cerbyd yn nodi'n glir faint o deithwyr y caniateir iddynt sefyll yn ystod taith. Mae'n groes i'r gyfraith i fwy o deithwyr sefyll na'r nifer a nodwyd neu sefyll os oes seddi ar gael.
- Er mwyn eu diogelwch eu hunain a theithwyr arall, mae'n rhaid i bob teithiwr sy'n sefyll gydio'n dyn mewn canllaw cydio neu strap hongian.
- Ni ddylai teithwyr sy'n sefyll byth sefyll wrth ymyl cab y gyrrwr neu wrth ddrws.

Gwregysau diogelwch

- Os oes gwregysau diogelwch ar gael, mae'n ofyniad cyfreithiol eich bod yn eu gwisgo bob amser.
- Mae'n rhaid i chi hysbysu'r gyrrwr ar unwaith os nad yw eich gwregys diogelwch yn gweithio.
- Mae'n rhaid gwisgo gwregysau sedd yn gywir. Mae'n rhaid gwisgo gwregysau côl a lletraws er mwyn i adran letraws y gwregys orwedd ar draws yr ysgwydd a byth ar draws yr wyneb neu'r gwddf. Mae'n rhaid i ran côl gwregys orwedd ar draws rhan esgyrnog y glun a byth ar draws y stumog neu dopiau'r coesau. Os nad yw gwregysau'n addasu fel y gellir eu gwisgo'n gywir mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich rhiant neu warcheidwad pan ewch adref neu, ar y daith i'r ysgol, dweud wrth yrwrwr y bws a hefyd yr ysgol am hynny.

Teledu cylch cyfyng (CCTV)

- Gall teledu cylch cyfyng fod yn gweithio ar eich cludiant ysgol. Gellir defnyddio hyn i wybod pwy yw unrhyw deithwyr sy'n torri'r rheolau. Gellir hefyd ei ddefnyddio i ddiogelu teithwyr, hebryngwyr a gyrwyr.
- Gall swyddogion a enwyd o'r Uned Cludiant Teithwyr ddefnyddio teledu cylch cyfyng, neu'r cwmni cludiant os cymerir camau cyfreithiol gan unrhyw randdeiliad.
- Dim ond os rhoddir adroddiad am ddigwyddiadau gan unrhyw barti y caiff lluniau teledu cylch cyfyng eu monitro a chaiff ei warchod gan gyfrinair fel mai dim ond swyddogion a enwir all edrych arno.

Ymddygiad

- Rhaid i chi beidio ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n tynnu sylw'r gyrrwr. Enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yw gweiddi, taflu eitemau tu mewn i'r cerbyd neu allan o ffenestri, hongian allan o ffenestri, ymyrryd gydag offer diogelwch ac argyfwng y cerbyd, ymyrryd gyda drysau yn cynnwys drysau argyfwng, canu'r gloch heb fod angen, siarad gyda'r gyrrwr os nad mewn argyfwng, symud o amgylch tu mewn i'r cerbyd, ymladd, bwlio, fandaliaeth.
- Rhaid i chi beidio symud unrhyw offer diogelwch neu argyfwng o'r cerbyd. Enghreifftiau o hyn yw: offer cymorth cyntaf, diffoddwr tân, morthwyl gwydr, torrwr gwregysau sedd, arwyddion.
- Rhaid i chi beidio achosi straen neu ofn i unrhyw deithwyr eraill drwy wneud pethau fel gweiddi, bygwth rhywun, bwlio.
- Pan ydych eisiau mynd oddi ar y cerbyd dylech aros i'r cerbyd stopio, yna symud i du blaen y cerbyd, gan gydio mewn canllawiau cydio a sefyll ymaith o'r drws blaen a'r gyrrwr. Ni ddylech byth geisio mynd oddi ar y cerbyd nes ei fod wedi stopio'n llwyr a dylai'r drysau aros ar gau'n llwyr nes bod y cerbyd wedi stopio. Mae'n rhaid i chi aros i'r gyrrwr agor y drysau a pheidio ceisio eu hagor eich hunain, os nad yw'r gyrrwr yn dweud wrthy ch am wneud hynny mewn sefyllfa argyfwng.
- Unwaith y byddwch wedi camu oddi ar y cerbyd, safwch gryn bellter oddi wrtho fel y gall y gyrrwr gau'r drysau heb i'ch bagiau neu ddillad gael eu dal ym mecanwaith y drws.
- Gadewch i'r cerbyd symud ymaith yn ddiogel bob amser. Bydd hyn yn eich galluogi i weld y ffordd yn well os oes angen i chi groesi i'r ochr arall. Ni ddylech byth geisio croesi'r ffordd o flaen neu tu ôl i'ch bws ysgol gan nad yw modurwyr yn debyg o'ch gweld yn glir.

Os oes gennych gŵyn

- Os ydych eisiau gwneud cwyn am unrhyw agwedd o'ch darpariaeth cludiant ysgol a allai gynnwys cwyn am deithiwr arall, y gyrrwr neu'r cerbyd, mae'n rhaid i chi wneud hynny un ai drwy ddweud wrth eich rhiant neu'r gwarcheidwad a'r ysgol. Paratowyd ffurflen gwynion fel rhan o'r contract rhieni ond mae fel arall ar gael o'ch ysgol neu'r Uned Cludiant Teithwyr. Bydd gan eich ysgol o leiaf un person sy'n delio gyda materion cludiant ysgol.
- Pan fydd cwynion wedi eu cwblhau gellir eu cyfeirio at yr ysgol neu'r Uned Cludiant Teithwyr.

Anafiadau

- Mae'n rhaid i chi hysbysu'r gyrrwr ar unwaith os cewch eich anafu ar y daith i neu o'r ysgol. Ar ôl cael eu hysbysu am eich anaf, bydd y gyrrwr yn sicrhau y cymerir camau priodol a all gynnwys galw am help meddygol.

Bwlio

- Ni fyddwch yn bwlio unrhyw deithiwr, gyrrwr neu staff hebrwng ar unrhyw staff.
- Dylech hysbysu'r ysgol os gwyddoch fod rhywun arall yn cael ei fwlio. Gallwch wneud hyn yn hollol gyfrinachol a heb gael eich adnabod.
- Dylech geisio help os ydych yn dioddef bwlio fel y gellir cymryd camau i'ch helpu stopio'r bwlio rhag parhau. Gallwch geisio help o nifer o leoedd fel eich teulu, yr ysgol, y Cyngor, Childline, Kidscape, BUSK. Ni fyddwch yn gwneud y bwlio yn waeth drwy ddweud wrth y person priodol.

Bwyta ac yfed

- Ni chaniateir i chi fwyta neu yfed pan fyddwch ar gludiant ysgol. Ni chaniateir gwm cnoi chwaith.

Bagiau ac offer

- Dylai bagiau ac offer fel offerynnau cerdd neu fagiau chwaraeon gael eu storio'n ddiogel mewn raciau uwch ben, llociau bagiau/loceri neu dan eich sedd.
- Mae'n rhaid cadw llwybrau a phob allfan yn glir bob amser rhag bagiau i osgoi llesteirio gwagu mewn argyfwng pe byddai damwain, tân neu ddigwyddiad arall.
- Os ydych yn gadael bagiau ar ôl yn ddamweiniol ar gerbyd bydd angen i chi gysylltu'n uniongyrchol â'r gweithredwr cludiant i wneud trefniadau i'w gael yn ôl.
- Ni ddylech byth geisio dychwelyd i gerbyd i gael bagiau yr ydych wedi eu gadael ar ôl os yw'r cerbyd wedi dechrau symud i ffwrdd.

Sbwriel

- Dim ond unrhyw gynwysyddion sbwriel a ddarperir ar eich cludiant ysgol y dylech eu defnyddio neu dylech fynd â'ch sbwriel gyda chi pan fyddwch yn gadael y cerbyd.

Gyrrwyr

- Os yw'ch gyrrwr yn rhoi cyfarwyddyd i chi mae'n rhaid i chi ei ddilyn yn arbennig os oes argyfwng.
- Ni fydd y gyrrwr fel arfer yn gofyn i chi weithredu drws ond mewn argyfwng gall fod yn rhaid iddo/iddi wneud hynny. Fel arfer ni chaniateid i chi weithredu unrhyw ddrysau yn y cerbyd ond os yw'r gyrrwr wedi gofyn i chi wneud hynny mewn sefyllfa argyfwng yna dylech ddilyn y cyfarwyddyd. Bydd drysau cefn argyfwng bysus a choetsis yn agor ar yr ochr bellaf (i'r ffordd) a gall traffig arall fod yn pasio. Mae'n hanfodol eich bod yn cadw hyn mewn cof ac yn atgoffa pobl eraill i wneud hynny hefyd.

Hebryngwyr

- Pan mae hebryngwyr yn gweithio gyda chi, mae'n rhaid i chi ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y maent yn eu rhoi.

Addysg diogelwch

- Gallech ar ryw gam gael cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant diogelwch. Rhoddir hyn yn ystod y diwrnod ysgol. Nid yw hyn yn ddewisol ac fe'i cynlluniwyd i wneud eich taith i'r ysgol ac oddi yno yn fwy diogel i chi, eich cyd-deithwyr, y gyrrwr, yr hebryngwr os oes un a'r holl ddefnyddwyr ffyrdd eraill.

Ysmygu

- Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i chi, y gyrrwr neu unrhyw deithiwr arall ysmygu ar drafnidiaeth ysgol.
- Caiff sigaréts, tybaco, papurau rholio, tanwyr neu fatshis eu gwahardd ar holl wasanaethau trafndiaeth ysgol.

Sylweddau

- Ni chaniateir sylweddau ar gludiant ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon ac erosolau.

Arfau

- Ni chaniateir cario cyllyll neu arfau eraill ar gludiant ysgol.
- Ni chaniateir cario unrhyw eitem nad oes ei hangen ar gyfer yr ysgol y gellid ei defnyddio fel arf ar gludiant ysgol.
- Ni chaniateir poteli gwydr ar gludiant ysgol.
- Caiff unrhyw eitemau a ddisgrifir neu a ddefnyddir fel arfau eu hatafael gan y gyrrwr neu hebryngwr.

Fandaliaeth

- Gellir defnyddio teledu cylch cyfyng i adnabod unrhyw deithwyr sy'n faleisus yn fandaleiddio'r cerbyd.

- Lle profir fod disgybl wedi achosi difrod i gerbyd bydd angen i'r rhiant neu warcheidwad dalu'n llawn am y difrod hwnnw.
- Lle profir fod disgybl wedi achosi difrod i gerbyd, gall y gweithredwr cludiant a/neu'r Cyngor gymryd camau cyfreithiol.

Hawliau cyfreithiol disgybl

Mae gan ddisgyblion hawl cyfreithiol i:

- Cael cerbyd sy'n fecanyddol gadarn ac yn cyflawni'r holl ofynion cyfreithiol ar gyfer cludiant ysgol.
- Cael gyrrwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n addas.
- Cael hebryngwr wedi'i hyfforddi lle mae anghenion personol yn cyflawni'r meini prawf a osodir ar gyfer darparu hebryngwr.
- Cael taith ddiogel.
- Cael taith ddi-straen.

Cyfrifoldebau cyfreithiol y disgybl

Mae gan ddisgyblion gyfrifoldeb cyfreithiol i:

- Peidio byth dynnu sylw'r gyrrwr.
- Peidio byth fygwth y gyrrwr, hebryngwr neu unrhyw deithiwr arall.
- Peidio byth fwlio person arall neu achosi unrhyw ofid neu ymddwyn mewn modd bygythiol tuag at unrhyw deithiwr, arall, hebryngwr neu'r gyrrwr.
- Peidio byth gamddefnyddio drysau neu offer argyfwng ar y cerbyd na'u symud.
- Sefyll ymaith o'r gyrrwr ac o'r drysau pan fydd y cerbyd yn symud.
- Gwisgo gwregys diogelwch lle darperir un yn unol â deddfwriaeth gwregysau sedd.
- Bob amser eistedd yn gywir yn eich sedd a pheidio byth geisio eistedd ar y grisiau neu rac bagiau.
- Dilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr.

Gallech fod yn cyflawni trosedd os torrwyd y rheolau a all arwain at gamau cyfreithiol yn eich erbyn.

Gwybodaeth ymgynghorol

Hysbysir disgyblion bod y gyfraith yn dweud mai gyrrwr sydd â'r gair olaf am bwy a gariant. Gall y gyrrwr wrthod gadael i chi fynd ar gerbyd ar sail iechyd a diogelwch yr holl deithwyr eraill a'r gyrrwr ei hunan.

Ni chaniateir i gyrrwr symud disgyblion o'r cerbyd tra maent ar y daith a'ch gadael. Fodd bynnag, rhaid deall os yw ymddygiad neilltuol yn effeithio ar ddiogelwch y gyrrwr neu unrhyw deithiwr arall, gall y gyrrwr godi'r mater a gofyn am gyngor gan yr Uned Cludiant Teithwyr. Gall y gyrrwr wneud cais am ganiatâd gan yr Uned Cludiant Teithwyr i yrru disgyblion yn ôl i'r ysgol lle daw rhieni yn gyfrifol am eu taith yn ôl adref. Gall y gyrrwr gael awdurdod i yrru disgyblion i'w gorsaf heddlu agosaf a dod â'r daith i ben. Os yw disgyblion yn achosi toriadau diogelwch yn gyson ar wasanaethau cludiant Cartref i'r Ysgol, gallai'r camau gweithredu hynny gynnwys dileu cludiant.

Gallai unrhyw weithredu o'r fath gynnwys gwaharddiad dros dro neu barhaol o gludiant, ac yn y cyfnod hwnnw byddai'r rhiant neu warcheidwad yn gyfrifol am ganfod dulliau eraill o gludiant i/o'r ysgol. Gall ysgolion ddymuno gweithredu dulliau disgyblu a fabwysiadwyd ganddynt yng nghyswllt unrhyw ddiwyddiad(au) ymddygiad.

Rhieni a Gwarcheidwaid

Y rheolau

Pwyntiau codi a gollwng

- Mae rhieni neu warcheidwad yn gyfrifol am fynd gyda phlant i safleoedd bus a phwyntiau codi mewn da bryd ar gyfer y cludiant yn cyrraedd yn y bore a sicrhau y gwneir trefniadau i gasglu plant o bwyntiau gollwng a safleoedd bus ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Nid yw'r Uned Cludiant Teithwyr na'r gweithredwyr cludiant yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw ddisgybl cyn iddynt fynd ar gerbyd.
- Ni all gyrwyr aros am riant neu warcheidwad nad yw'n cyrraedd mewn pryd i gasglu eu plentyn. Yn y sefyllfa hon ni fydd gyrrwr yn gadael plentyn ifanc ar ymyl y ffordd a bydd yn parhau'r daith gyda'r plentyn ar y cerbyd nes y gellir trosglwyddo'r plentyn i oedolyn addas un ai drwy fynd â nhw yn ôl i'r ysgol neu fynd â nhw i orsaf heddlu.
- Rhaid i rieni neu warcheidwaid beidio parcio ceir mewn safleoedd bus neu ardaloedd codi/gollwng gan y gall hyn effeithio ar gerbydau cludiant ysgol yn tynnu'n ddiogel i ochr y ffordd ac achosi perygl i draffig arall neu beryglu cerddwyr.

Fel rhieni neu warcheidwaid mae:

- Angen i chi sicrhau fod eich mab neu ferch yn deall y rheolau yn Adran Disgyblion y Llyfr Rheolau.
- Gofyn i chi sicrhau fod eich mab neu ferch yn cydymffurfio gyda'r rheolau.
- Gofyn i chi sicrhau fod eich mab neu ferch yn deall yn glir y gellid dileu cludiant am gyfnod neu hyd yn oed yn barhaol os ydynt yn torri'r rheolau ac yn arbennig yn achosi toriad diogelwch gan eu hymddygiad.
- Gofyn i chi esbonio i'ch mab neu ferch os caiff cludiant ei ddileu y gallant achosi anhawster mawr i chi wrth fynd â nhw i'r ysgol eich hunan ac ar eich cost eich hunan.
- Gofyn i chi sicrhau fod eich mab neu ferch yn glir am eu hawliau cyfreithiol a hefyd eu cyfrifoldebau.

Cwynion

- Dylid gwneud cwynion argyfwng am ddiogelwch yn uniongyrchol i'r Cyngor ar 01633 644502
- Gellir gwneud cwynion heb fod yn argyfwng yn defnyddio ffurflen cwynion y gellir gofyn amdani drwy ffonio 01633 644777 neu drwy neges e-bost at passengertransportunit@monmouthshire.gov.uk

Cwmnïau Cludiant

Y Rheolau

Mae'n rhaid i gwmnïau cludiant:

- Ddarparu cerbydau glân sy'n gadarn yn fecanyddol ac yn cyflawni'r holl ofynion cyfreithiol a thelerau'r contract.
- Darparu cerbydau sy'n addas ar gyfer grŵp oedran y teithwyr a gaiff eu cario a'r llwybr a ddefnyddir.
- Defnyddio gyrrwyr gyda chymwysterau llawn sydd â'r trwyddedau cywir ar gyfer y cerbyd y maent yn ei yrru a dim ond defnyddio gyrrwyr a gafodd wiriad DBS am eu haddasrwydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Bod â sicrwydd yswiriant digonol yn ei le.
- Bod â'r Trwyddedau Gweithredydd cywir ar gyfer nifer y cerbydau a ddefnyddir.
- Cadw cofnod archwiliad o wiriadau cerdded o amgylch gan yrwyr a chwynion, eu canlyniad ac unrhyw gofnod arall y gall yr Uned Cludiant Teithwyr fod eu hangen o bryd i'w gilydd.
- Cymryd rhan mewn unrhyw gyrsiau hyfforddiant yn gysylltiedig â diogelwch disgyblion ysgol y mae'r Cyngor yn eu darparu a/neu ddarparu gyrrwyr penodol ar gyfer yr hyfforddiant yma pan fo angen.
- Sicrhau fod gyrrwyr yn gwybod yn llawn am y gweithdrefnau cwynion sy'n weithredol iddynt.
- Rhoi datganiad ysgrifenedig i'r Uned Cludiant Teithwyr ar ran y gweithredydd cludiant eu bod wedi darllen copi o'r Llyfr Rheolau yma ac yn deall a chytuno gyda'r cynnwys.
- Sicrhau fod yr holl yrwyr a defnyddir ar gyfer gwaith ysgol wedi derbyn copi o'r Llyfr Rheolau ac y cedwir datganiad wedi'i lofnodi gan bob gyrrwr yn cadarnhau eu bod wedi darllen y Llyfr Rheolau, yn deall ac yn cytuno gyda'r cynnwys, ei gadw ar ffeil ar gyfer dibenion archwilio gan yr Uned Cludiant Teithwyr.
- Cadw llungopi o'r drwydded ar ffeil ar gyfer pob gyrrwr, gan eu hadolygu a hawliadau ar sail 6 mis.
- Cadw ar ffeil a dosbarthu i staff perthnasol asesiadau risg ar gyfer teithwyr gydag Anghenion Addysgol Arbennig.

Gyrrwyr

Y Rheolau

Mae'n rhaid i yrwyr:

- Fod â thrwydded yrru gyfredol a pherthnasol ar gyfer y cerbyd y maent yn ei yrru.
- Cynnal dilysrwydd eu trwydded yn ôl amodau defnydd e.e. gwisgo sbectol, ymchwiliad meddygol, CPC gyrrwyr.
- Cynnal a chofnodi ar gyfer dibenion archwilio ddalen diffygion dyddiol ar gyfer pob cerbyd a ddefnyddir.
- Cadw cofnod ar gyfer dibenion archwilio o'u horiau gyrru, cyfnodau seibiant ac unrhyw waith tâl. Mae hyn yn dilyn ar gyfer y rhai sydd angen i weithredu mewn cydymffurfiaeth gyda chyfarwydddebau VOSA (cerbydau PCV).

- Bod â chopi o'r Llyfr Rheolau; mae'n ofynnol i yrwyr roi datganiad ysgrifenedig eu bod wedi darllen, deall a chytuno gyda chynnwys y Llyfr Rheolau. Mae'n rhaid rhoi'r datganiad wedi'i lofnodi i aelod uwch o reolwyr y cwmni i'w gadw ar gofnod.
- Cytuno dilyn unrhyw gyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan yr Uned Cludiant Teithwyr yn ymwneud â diogelwch cludiant ysgol.
- Hysbysu'r awdurdod priodol ar unwaith am unrhyw broblemau a dilyn holl weithdrefnau cwynion yr Uned Cludiant Teithwyr.
- Cadw rhestr gywir o deithwyr, gan hysbysu'r rheolwr/goruchwyliwr cludiant neu'r Uned Cludiant Teithwyr am unrhyw amrywiad.
- Bod â dogfen asesu risg yng nghyswllt cludiant teithwyr gydag anghenion addysgol arbennig.

Yn neilltuol wrth gludo plant a phobl ifanc mae'n rhaid i yrwyr:

- Fod wedi cymryd a chadw gwiriad DBS estynedig dilys am eu haddasrwydd i weithio heb oruchwyliaeth gyda phlant a phobl ifanc a bod â'r ddogfen berthnasol a chyfredol ar gyfer ei harchwilio.
- Bod yn broffesiynol bob amser a pheidio bod yn 'or-gyfarwydd' gyda disgyblion.
- Cadw rhestr gywir o deithwyr, gan hysbysu eu cyflogwr neu'r Uned Cludiant Teithwyr am bob amrywiad.
- Peidio byth gynnig anrhegion/rhoddion i ddisgybl.
- Peidio byth dderbyn rhoddion gan ddisgybl os nad oes rhiant neu warcheidwad yn bresennol.
- Peidio byth â bod yn wrthdrawiadol ar unrhyw amser gyda disgyblion, rhieni nac aelodau o staff yr ysgol.
- Peidio byth â gweithredu mewn ffordd sy'n ymddangos yn fygythiol neu'n achosi straen i unrhyw ddisgybl.
- Peidio byth â chaniatáu i ddisgyblion weithredu drysau os nad mewn argyfwng pan fedrwch roi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny.
- Peidio byth â rhoi disgybl oddi ar gerbyd os ydynt yn camymddwyn tra ar en route. Mae'n rhaid i yrwyr ddilyn gweithdrefnau ar gyfer delio gydag ymddygiad gwael fel y nodir yn yr adran 'Ymddygiad Gwael'.
- Deall deddfwriaeth gwregysau sedd i gynnwys y gyfraith yn ymwneud â defnyddio seddi babanod/plant a chlustogau bwster a chydymffurfio ag unrhyw ofynion ar gyfer gorfodi eu gweithio. Ni fydd hyn yn berthnasol i goetsis ond gall fod yn weithredol i fysis mini a thacsis.
- Hysbysu'r rheolwyr, yr ysgol, yr heddlu neu'r Uned Cludiant Teithwyr am unrhyw bryderon am ddiogelwch unrhyw ddisgybl os teimlir y gall y disgybl fod yn dioddef unrhyw fath o gamdriniaeth, bwlio neu dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.
- Rhoi adroddiad am unrhyw ddifrod ni'r cerbyd neu offer sydd ar goll o'r bws ar ddiwedd taith.
- Sicrhau fod pob mecanwaith gwregysau diogelwch mewn trefn gywir ac yn gweithio ac nad yw rhwyd y gwregys sedd wedi treulio neu dwistio.
- Sicrhau nad yw disgyblion yn sefyll wrth y cab neu ddrysau tra mae'r cerbyd yn symud a sicrhau bod y drysau'n parhau wedi cau'n llwyr nes daw'r cerbyd i stop cyflawn.
- Canu'r corn ar unwaith os yw disgyblion yn ceisio croesi o flaen y cerbyd i'w rhybuddio am berygl.
- Rhoi adroddiad am unwaith os caiff rheolau eu torri fel y gellir trin y mater yn gyflym. Rhaid i'r gyrrwr beidio dadlau gydag unrhyw ddisgybl/ion.
- Rhoi adroddiad ar unwaith i'r rheolwyr am unrhyw offer a ganfyddir ar ddiwedd y daith y gellid fod wedi cysylltu â chymryd cyffuriau yn ystod y daith. Dylai gyrrwyr sy'n ymwybodol drwy arogl

ond dim yn sicr os mai cyffuriau yw hyn ac yn maethu canfod unrhyw dystiolaeth ofyn am gyngor gan y Cyngor a'u rheolwyr.

Hebryngwyr

Y Rheolau

Rhaid i hebryngwyr:

- Fod wedi cael a chynnal gwiriad DBS estynedig dilys am eu haddaswydd i weithio heb oruchwyliaeth gyda phlant a phobl ifanc a bod â'r ddogfen berthnasol a chyfredol ar gyfer ei harchwilio.
- Cadw rhestr gywir o'r teithwyr, gan hysbysu eu cyflogwr neu'r Uned Cludiant Teithwyr am bob amrywiad.
- Bod â dealltwriaeth glir o unrhyw anabledd neu anhawster dysgu unrhyw deithiwr yn eich gofal.
- Gwneud unrhyw asesiad risg a roddwyd ar gyfer teithwyr ar gael os bydd argyfwng meddygol.
- Bod yn glir am unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei chario a bod â chyfarwyddiadau ysgrifenedig llawn gerllaw ar gyfer pob disgybl yng nghyswllt eu meddyginiaeth a phwy all weinyddu hyn a phryd.
- Dal Tystysgrif Cymorth Cyntaf a deall yn glir beth yw'r cynnwys yn y blwch cymorth cyntaf ar y cerbyd a sut i ddefnyddio'r offer.
- Bod yn glir am unrhyw gyfarwyddiadau argyfwng sy'n rhaid eu gwneud os bydd damwain, y cerbyd yn torri lawr neu argyfwng meddygol a all godi.
- Bod yn glir lle mae ysbytai wedi eu lleoli.
- Sicrhau y caiff cadeiriau olwyn eu clampio yn y lle yn gywir ac y caiff pob system atal eu defnyddio'n gywir.
- Deall yn glir sut i weithredu unrhyw offer lifft cefn a rampiau.
- Rhoi adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau a all ddigwydd yn ystod y daith i'r person perthnasol. Gallai hyn fod yr ysgol y rhiant, y gyrrwr, y gweithredydd cludiant neu'r Cyngor.

Ysgolion

Y Rheolau

Rhaid i lywodraethwyr ysgol:

- Bod yn hollol ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni yng nghyswllt gwasanaethau cludiant ysgol.
- Cynnwys cludiant ysgol ar agenda cyfarfodydd llywodraethwyr.
- Cadw llwybr archwilio o gwynion a sut y cânt eu trin, monitro gweithdrefnau, dilyn lan gydag asesiadau risg a chofnodion unrhyw gyfarfodydd a gynhelir i drin materion cludiant ysgol.
- Bod â pholisi Cludiant Ysgol digonol yn ei le sy'n cynnwys rheoli safle cerbydau a cherddwyr.
- Bod â pholisi ymarferol ar wregysau seddi i gynnwys manylion sut y bydd gorfodaeth gwregysau sedd yn gweithio a chael ei fonitro.
- Bod un ai â'r person a enwir yn gyfrifol am gludiant ysgol neu dîm bach i gydweithio i sicrhau fod cludiant ysgol yn gweithredu'n ddiogel. Mae hyn yn hanfodol fel y gall yr ysgol hwyluso

anghenion disgybl a all ddymuno roi adroddiad am unrhyw ddigwyddiadau neu broblemau'n gysylltiedig â'r daith bws ysgol.

- Bod ag asesiad risg ysgrifenedig yn ei le ar gyfer cludiant sy'n symud tu mewn i safle'r ysgol, gadael a mynd i mewn i safle'r ysgol pwyntiau codi a gollwng y tu mewn a hefyd y tu allan i glwyd yr ysgol. Mae'n rhaid i'r asesiad gynnwys cerbydau staff, rhieni/gwarcheidwaid ac ymwelwyr sy'n gyrru ac yn parcio'r tu mewn/tu allan i safle'r ysgol. Rhaid cynnwys dulliau o wella diogelwch a chyflwyno systemau i wella diogelwch.
- Trin unrhyw gŵyn ysgrifenedig ar unwaith.
- Mynych unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â darpariaeth cludiant ysgol a ddarperir gan y Cyngor.
- Bod â chopi ar ffeil o'r Llyfr Rheolau hwn a rhoi datganiad wedi'i lofnodi gan o leiaf ddau o'r llywodraethwyr presennol a phennaeth yr ysgol eu bod wedi darllen y Llyfr Rheolau a'i ddeall a'u bod yn cytuno gyda'r cynnwys a bod y Cyngor yn cadw'r datganiadau hyn ar ffeil.

Y Cyngor

Y Rheolau

Mae'n rhaid i'r Cyngor:

- Gadw datganiad wedi'i lofnodi ar ffeil gan bob aelod o staff sy'n gweithio yn yr adran cludiant ysgol fod ganddynt eu copi eu hunain o'r Llyfr Rheolau, eu bod wedi darllen, deall a chytuno gyda chynnwys y Llyfr Rheolau.
- Monitro'n barhaus y ffordd y caiff adran cludiant ysgol ei rhedeg, darparu hyfforddiant priodol i unrhyw randdeiliad lle'n briodol neu angenrheidiol a cheisio gwella pob agwedd o'r gwasanaeth bob amser.
- Cadw llwybr archwiliad o'r holl ddogfennau cludiant ysgol.
- Rhoi copïau am ddim o'r Llyfr Rheolau i holl randdeiliaid cludiant ysgol.